***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1876 (Cy.185)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *18 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1989" ("*the 1989 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Ffioedd ar gyfer rhai ceisiadau o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir

**2.**—(1) Yn rheoliad 11A o Reoliadau 1989(**4**), yn lle paragraff (1), rhowch—

> "(1) Where an application is made to a local planning authority for their determination as to whether the prior approval of the authority will be required in relation to development under Schedule 2 to the General Permitted Development Order a fee shall be paid to the authority of the following amounts—
>
> (a) for an application under Parts 6, 7 or 31, £35; and
>
> (b) for an application under Part 24, £190".

(**1**) 1990 p.8: diwygiwyd adran 303 gan baragraff 10 o Atodlen 13 i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43), a chan adran 6(6) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991(p.34). *Gweler* adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gael y diffiniad o "*prescribed*".

(**2**) Trosglwyddwyd cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 303, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672 ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S.1989/193; 1991/2735, 1992/1817, 1993/3170 a 1997/37 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

(**4**) Mewnosodwyd Rheoliad 11A gan baragraff 3 o Atodlen 3 i O.S.1991/2735 ac fe'i hamnewidiwyd gan reoliad 4 o O.S.1992/3052.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*John Marek*
18 Gorffennaf 2002 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu'r ffi sydd i'w dalu am wneud cais i awdurdod cynllunio lleol am ddyfarniad a fydd gofyn am gydsyniad o flaen llaw o dan Ran 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 ar gyfer datblygiad telathrebu arfaethedig.

Cynyddir y ffi o £35 i £190 er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn y gofynion rhybuddio ac ymgynghori a osoidir ar awdurdodau cynllunio lleol mewn perthynas â datblygiadau o'r fath gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002, O.S. 2002/1878 (Cy.187).